WHQ
WELSH HOUSING QUARTERLY
GORFF 2009

Nodyn cynghori ar symud ymlaen

Ariennir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Funded by
Welsh Assembly Government

Cynnwys

Adran

1	Cefndir	t3
2	Cyd-destun	t4
3	Ymchwil flaenorol	t6
4	Symud ymlaen yn ymarferol	t10
5	Bwrw ymlaen	t21
6	Gwybodaeth bellach	t22

1 Nodyn cynghori ar symud ymlaen
Cefndir

Cynhyrchwyd y nodyn cynghori WHQ hwn gyda chymorth ariannol gan raglen arfer da mewn digartrefedd Llywodraeth y Cynulliad. Ei nodau yw:

- gosod y cyd-destun ar gyfer symud ymlaen yng Nghymru
- crynhoi canlyniadau ymchwil flaenorol i bwnc symud ymlaen
- darparu enghreifftiau ymarferol o'r modd y mae awdurdodau lleol a'r sefydliadau sy'n bartneriaid iddynt wedi mynd i'r afael â symud ymlaen, yn cynnwys mentrau sy'n canolbwyntio ar sicrhau mwy o lety i bobl yn y sector rhentu preifat
- nodi'r camau nesaf ar lefel leol ar gyfer yr awdurdodau hynny sydd heb strategaeth neu gynllun gweithredu symud-ymlaen hyd yma, neu'r rheini sydd am adolygu eu ffordd bresennol o fynd ati

Gwnaed arolwg o amrywiaeth eang o lenyddiaeth a gwybodaeth am arfer, yn cynnwys:

- cynlluniau symud-ymlaen ac ailsefydlu perthnasol yng Nghymru a thu hwnt i'w ffiniau yn y sector tai cymdeithasol
- gwybodaeth am asiantaethau gosod eiddo cymdeithasol
- gwybodaeth berthnasol am ddefnyddio'r sector rhentu preifat i ddarparu llety symud-ymlaen

Daethpwyd o hyd i'r wybodaeth ffynhonnell drwy chwilio'r we, trafod gyda chysylltiadau perthnasol mewn sefydliadau unigol, a chydgysylltu â'r National Homelessness Network/SPIN Co-ordinator er mwyn nodi mentrau ac arfer perthnasol yng Nghymru.

Mae gweddill y nodyn cynghori hwn wedi ei strwythuro fel a ganlyn:

- **Adran 2** – cyd-destun
- **Adran 3** – ymchwil flaenorol
- **Adran 4** – symud ymlaen yn ymarferol
- **Adran 5** – bwrw ymlaen
- **Adran 6** – gwybodaeth bellach – gwefannau a chyhoeddiadau

Nodyn ar ddiffiniadau

Drwy 'symud ymlaen', golygir symud i lety mwy parhaol o lety dros-dro ac o brojectau tai â chymorth. Gellir symud ymlaen i mewn i dai â lefel is o gymorth, i mewn i dai anghenion cyffredinol, neu i'r sector rhentu preifat, naill ai gyda chymorth symudol neu hebddo.

2 Nodyn cynghori ar symud ymlaen
Cyd-destun

Polisi

Darperir y cyd-destun polisi cenedaethol yng Nghymru ar hyn o bryd gan y **Cynllun Digartrefedd Deng Mlynedd** a'r drafft ymgynghorol o Strategaeth Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai.

Mae'r **Cynllun Digartrefedd Deng Mlynedd** yn cynnwys adran ar hwyluso symud ymlaen o lety dros-dro sy'n nodi: *'Er mwyn cynyddu eu gallu i gadw'r llety hwnnw, mae'n bwysig i bobl allu cael gafael ar lety mwy hir-dymor sy'n addas i'w hanghenion ar adeg briodol. Mae'n hanfodol hefyd i bobl gael y cymorth i adsefydlu sydd ei angen arnynt yn ystod y cyfnod symud ymlaen.'*

Mae Llywodraeth y Cynulliad am weld:

- cynllunio strategol ar gyfer tai lleol a digartrefedd yn ystyried yr angen am lety symud-ymlaen, gyda chyfranogaeth yr holl ddarparwyr tai a chefnogaeth
- awdurdodau lleol yn ymdrin â chynllunio a monitro symud ymlaen mewn modd cydgysylltiedig, fel y gall teuluoedd ac unigolion sydd ag arnynt angen llety mwy sefydlog fanteisio ar amrywiaeth o ddewisiadau o lety sydd ar gael yn y gymuned cyn gynted ag sy'n bosibl
- ateb anghenion teuluoedd a fu'n ddigartref am gefnogaeth o fewn trefniadau symud-ymlaen, fel bod ganddynt y cyfle gorau posibl o allu dal gafael ar eu llety ac osgoi mynd yn ddigartref eto

Nid yw'r drafft ymgynghorol o **Strategaeth Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai** yn nodi symud ymlaen fel problem gyffredinol yng nghyd-destun tai â chymorth, ond mae'n ei grybwyll mewn perthynas â llety a chymorth i rai sydd wedi dioddef trais yn y cartref.

Does dim ystadegau sy'n darparu darlun clir o faint na chwmpas y 'broblem' symud-ymlaen ar lefel genedlaethol yng Nghymru. Mae angen casglu a chyfosod y fath wybodaeth ar lefel leol. Mae'r mwyafrif o Gynlluniau Gweithredu Cefnogi Pobl awdurdodau lleol Cymru yn ei nodi fel problem, naill ai yn gyffredinol neu yn achos grwpiau penodol o gleientiaid, ac mae nifer yn nodi y bydd strategaethau symud-ymlaen yn cael eu datblygu. Er enghraifft:

- Cynllun Gweithredol Cefnogi Pobl 2009/2010 Casnewydd:
  'Mae gan Gasnewydd amrywiaeth eang o gynlluniau tai â chymorth wedi eu clystyru o gwmpas canol y ddinas, ac mae angen cynlluniau ychwanegol o hyd i ateb gofynion cleientiaid diymgeledd, sy'n cynyddu bob blwyddyn. Mae'r diffyg llety symud-ymlaen yn gwaethygu'r broblem, gan fod pobl sy'n barod i symud ymlaen yn methu gwneud, sy'n gwadu cyfle i bobl eraill ddiymgeledd sydd ag angen mynediad i lety â chymorth'
- Mae Cynllun Gweithredol Cefnogi Pobl 2009/2010 Caerdydd yn nodi bylchau yn y ddarpariaeth o ran llety symud-ymlaen a chefnogaeth ar gyfer ffoaduriaid, yn enwedig, ac ar gyfer pobl ifanc ddigartref
- Mae Cynllun Gweithredol Cefnogi Pobl 2009/2010 Blaenau Gwent yn nodi fod yr Adran Dai wedi cyflogi Swyddog Atal Digartrefedd Strategol yn ddiweddar y bydd ei waith yn cynnwys datblygu Strategaeth Symud-ymlaen ar gyfer y bwrdeistref
- Cynllun Gweithredol Cefnogi Pobl 2009/2012 Gwynedd:
  'Fe gofnodwyd ymhob un o'r pum Cynllun Cefnogi Pobl blaenorol fod yna broblem darganfod llety 'symud ymlaen' i bobl a gartrefwyd mewn llety a chefnogaeth dros-dro, sydd yn ei dro yn cael effaith ar y gwasanaethau ac yn lleihau'r adnoddau sydd ar gael i anghenion newydd.
  'Ers blynyddoedd bellach, mae'r cyfarfodydd blynyddol ar fapio anghenion a chyflenwad wedi adnabod y diffyg cynllunio strategol i ddatblygu tai newydd ynghyd â'r effaith y mae hyn yn ei gael ar lety symud ymlaen i bob grŵp defnyddwyr gwasanaeth.
  'Mae Strategaeth Llety Symud Ymlaen Cefnogi Pobl wedi cael ei gomisiynu a bwriedir ei gwblhau cyn diwedd 2009.'

Ymchwil flaenorol

Cafodd sawl darn sylweddol o waith ei wneud ar symud ymlaen yn Lloegr, yn cynnwys project Protocol Cynlluniau Symud Ymlaen (MOPP) Homeless Link, darn manwl o waith a gomisiynwyd er mwyn archwilio problemau penodol i dde-orllewin Lloegr ac astudio swyddogaeth y sector rhentu preifat fel opsiwn symud-ymlaen.

Mae ymchwil flaenorol wedi nodi nifer o anawsterau yng nghyd-destun symud ymlaen, yn ogystal â nifer o rwystrau i sicrhau fod digon o bobl yn symud ymlaen o lety â chymorth a llety dros-dro.

Mae'r anawsterau a greir gan ddiffyg llety symud-ymlaen yn gyfarwydd, yn cynnwys:

- effaith wael ar ddefnyddwyr gwasanaethau gan y gall hyn arafu eu hynt tuag at fyw'n annibynnol
- anallu projectau llety â chymorth/ dros-dro i ateb anghenion rhai sy'n disgwyl am fynediad i'r llety hwnnw. Gallai hynny effeithio ar benderfyniadau ynglŷn â chomisiynu tai â chymorth gan fod angen heb ei ddiwallu yn ysgogi penderfyniadau o'r fath
- bod y llety â chymorth/dros-dro ac, o'r herwydd, y sefydliad a'i comisiynodd, yn sicrhau llai o werth am arian

Ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw ymchwil ar lefel genedlaethol i symud ymlaen yng Nghymru. Serch hynny, mae gan nifer o awdurdodau lleol Cymreig ddulliau sefydliedig o ymdrin â symud ymlaen, ac mae rhai awdurdodau eraill wedi bod yn ystyried datblygu dulliau tebyg. Er enghraifft:

- Comisiynodd tîm Cefnogi Pobl Sir Ddinbych ymgynghorwyr allanol i wneud ymchwil gydag amrywiaeth o fudd-ddeiliaid ac argymell sut y gellid gwella'r broses symud-ymlaen yn y dyfodol

- Mae cynghorau Ynys Môn a Gwynedd wedi derbyn cyllid o dan raglen y Grant Rheolaeth Tai Cymdeithasol i ddatblygu strategaeth symud-ymlaen ar gyfer y ddau awdurdod ac maent wedi comisynu ymgynghorwyr yn ddiweddar i wneud arolwg

Ymdrinir yn fwy manwl â chanlyniadau ymchwil flaenorol yn adran nesaf y nodyn cynghori hwn.

Pwyntiau i grynhoi

- Ffocws y cyd-destun polisi cenedlaethol presennol ar gyfer symud ymlaen, fel y mynegir hynny yn y dogfennau ymgynghori ar y drafft strategaeth genedlaethol, yw'r agenda ddigartrefedd yn hytrach na'r agenda tai â chymorth
- Mae'r rhan fwyaf o Gynlluniau Gweithredol Cefnogi Pobl awdurdodau lleol Cymru yn nodi symud ymlaen fel problem, yn gyffredinol neu mewn perthynas â grwpiau penodol o gleieintiaid
- Gwnaed nifer o ddarnau sylweddol o waith ar symud ymlaen yn Lloegr
- Mae'r anawsterau a greir gan ddiffyg llety symud-ymlaen yn cynnwys effaith negyddol ar ddefnyddwyr gwasanaethau, projectau yn methu ateb anghenion pobl ar restrau aros, a llai o werth am arian yn cael ei greu gan lety â chymorth/llety dros-dro
- Er na fu unrhyw brojectau cenedlaethol yn ymchwilio i symud ymlaen yng Nghymru, mae nifer o awdurdodau lleol wedi datblygu dulliau o fynd ati ac mae eraill bellach yn ystyried gwneud hynny

3 Nodyn cynghori ar symud ymlaen
Ymchwil flaenorol

Mae'r adran hon o'r nodyn cynghori yn crynhoi'r problemau a ddarganfuwyd gan y pum project a ganlyn:

- project Dewisiadau Amgen ar gyfer Symud Ymlaen (Move On Alternatives)
- project Protocol Cynlluniau Symud Ymlaen (Move On Plans Protocol)
- ymchwil i ddarganfod a goresgyn rhwystrau i symud ymlaen yn ne-orllewin Lloegr
- rhaglen sector rhentu preifat y London Housing Foundation
- ymchwil ar hynt pobl ifanc o'r naill fath o lety i'r llall

Project Dewisiadau Amgen ar gyfer Symud Ymlaen

Menter ar y cyd gan grŵp o awdurdodau lleol, darparwyr cefnogaeth, cyn-Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM) a Chymdeithas Llywodraeth Llundain (ALG) oedd project Move On Alternatives. Y nod oedd ymateb i'r pryder eang ynglŷn â diffyg llety i symud ymlaen iddo o hosteli a mathau eraill o dai â chymorth yn Llundain. Cyllidwyd y project gan yr ODPM, ALG a Maer Llundain, a bu'n ystyried symud ymlaen o bob math o lety â chymorth. O ganlyniad iddo, cyhoeddwyd nifer o ganlyniadau rhwng 2003 a 2005.

Un o ganlyniadau'r project oedd fframwaith ar gyfer datblygu strategaeth symud-ymlaen ar sail ardal. Awgrymwyd y dylai'r strategaeth ymdrin â:

- defnyddio tai cymdeithasol fel llety symud-ymlaen
- ymdopi â disgwyliadau defnyddwyr gwasanaethau
- mentrau i gynyddu defnydd o'r sector rhentu preifat
- ad-drefnu gwasanaethau presennol
- cynigion ar gyfer monitro ac adolygu

Argymhellion cynnar y project i ddarparwyr llety dros-dro â chymorth o ran y camau y gallent eu cymryd i fynd i'r afael â'r prinder llety symud-ymlaen oedd:

- creu cronfa amgen o lety symud-ymlaen fel y sector rhentu preifat, neu symud pobl i ardaloedd lle mae llai o alw
- sefydlu meini prawf ar gyfer llety symud-ymlaen mewn tai cymdeithasol
- rhannu'r cyfrifoldeb gyda defnyddwyr y gwasanaeth er mwyn i'r rheini chwarae rhan fwy gweithredol yn y broses o werthuso a mynd ar drywydd dewisiadau llety symud-ymlaen sydd ar gael ar eu cyfer. Er mwyn iddynt wneud hynny, byddai'n rhaid fod gwybodaeth realistig ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau am y gwahanol ddewisiadau
- creu disgwyliadau mwy realistig ynglŷn â llety symud-ymlaen o fewn projectau, sy'n golygu hyfforddiant a chefnogaeth i'r staff rheng-flaen

Nododd y project fodelau o lety wedi ei rannu yn y sectorau rhentu preifat a thai cymdeithasol fel un dewis a allai gynyddu cyfle pobl o gael llety symud-ymlaen.

Nododd y project nifer o bynciau cyffredinol, yn cynnwys yr angen am:

- arweiniad strategol
- resymoli llwybrau i mewn i lety symud-ymlaen mewn tai cymdeithasol
- ystyried yr holl ddewisiadau tai sydd ar gael
- adolygu'r buddsoddi mewn gwasanaethau cefnogaeth yn ymwneud â thai, yn cynnwys sicrhau fod digon o gymorth symudol ar gael i gefnogi llety symud-ymlaen

Project y Protocol Cynlluniau Symud Ymlaen

Roedd project Protocol Cynlluniau Symud Ymlaen (MOPP) Homeless Link wedi ei gyllido gan yr adran Cymunedau a Llywodraeth Leol. Ysgogwyd y project gan arolwg a wnaed yn 2005 a gafodd fod 45% o'r llefydd gwely mewn hosteli yng Nghymru a Lloegr wedi eu llenwi gan bobl a oedd yn dymuno symud ymlaen. Nod gyffredinol y project MOPP oedd dylunio a rhoi prawf ar brotocol y gellid ei atgynhyrchu ar gyfer datblygu cynlluniau symud-ymlaen mewn ardaloedd lleol, gan ddefnyddio partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a darparwyr hosteli a thai â chymorth yn y sector gwirfoddol. Bu'r project yn gweithio mewn naw ardal beilot awdurdod lleol, fe'i cwblhawyd yn 2007 ac mae wedi cynhyrchu amrywiaeth o ganllawiau ac offerynnau sydd ar gael i awdurdodau lleol a'r asiantaethau sy'n bartneriaid iddynt (*www.homeless.org.uk/policyandinfo/issues/rehousing/mopp*).

Roedd y rhwystrau i symud ymlaen a nodwyd yn gynnar yn ystod project MOPP yn cynnwys:

- diffyg partneriaethau a chynllunio strategol o gwmpas gwasanaethau tai, cymorth a gofal, a oedd yn golygu fod y llwybrau rhwng y gwasanaethau yn annigonol
- dilyn dull datblygiad hanesyddol yn hytrach na dull strategol o ddyrannu tai cymdeithasol anghenion cyffredinol, sy'n arwain ar amrywiaeth eang o broblemau ymarferol, yn cynnwys meini prawf dyrannu anghyson a pholisïau sy'n gwahardd carfanau cyfan o bobl gan ddarparwyr tai cymdeithasol
- diffyg gwybodaeth am niferoedd ac anghenion pobl sydd ag angen llety symud-ymlaen ac am y gwasanaethau sydd ar gael ar eu cyfer
- y canfyddiad fod pobl ddigartref yn risg, sy'n achosi i rai darparwyr tai wrthod eu hailgartrefu

- diffyg darpariaeth addas ar gyfer grwpiau penodol, e.e., rhai o dan 18 oed
- yr angen am fwy o hosteli arbenigol, tai ail-gam â chymorth, a dewisiadau tymor-hir ar gyfer y rheini y mae arnynt eu hangen
- diffyg cymorth symudol ar gyfer y rhai sy'n symud ymlaen
- amrywiaeth o broblemau gyda chleientiaid penodol, yn cynnwys disgwyliadau afrealistig ynglŷn â llety symud-ymlaen
- disgwyliadau afrealistig staff mewn hosteli ynglŷn â faint o lety symud-ymlaen sydd ar gael yn y sector tai cymdeithasol
- diffyg ystyriaeth o'r sector rhentu preifat fel dewis

Cymerodd naw awdurdod lleol ran yn y cynllun peilot MOPP:

- **Cyngor Dinas Brighton a Hove** – gan weithio ar y cyd ag Ymddiriedolaeth Tai Brighton, buwyd yn ystyried defnyddio'r sector rhentu preifat fel dewis ar gyfer symud ymlaen
- **Cyngor Dinas Bryste** – buwyd yn ystyried ailwampio gwasanaethau Cefnogi Pobl er mwyn ateb gofynion defnyddwyr y gwasanaeth yn well ac ehangu'r dewisiadau symud-ymlaen
- **Cyngor Swydd Henffordd** – ffocws ar weithio gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i fynd i'r afael â rhwystrau i symud ymlaen
- **Bwrdeistref Llundeinig Lambeth** – buwyd yn ystyried sut y gellid cynnwys symud ymlaen o dan Gytundebau Ardal Leol cyn y bydd arian Cefnogi Pobl yn peidio â bod yn gronfa ar wahân ym mis Ebrill 2009
- **Cyngor Dinas Rhydychen** – datblygwyd y cynllun Home Choice i alluogi pobl i ddefnyddio'r sector rhentu preifat (www.oxford.gov.uk/housing/home-choice-scheme.cfm)
- **Cyngor Dinas Plymouth** – canolbwyntiwyd ar symud pobl ymlaen o wyth hostel yn y ddinas gan ddefnyddio amrywiaeth o fecanweithiau
- **Cyngor Dosbarth Metropolitan Wakefield** – datblwygwyd projectau symud-ymlaen newydd – y naill ar gyfer teuluoedd di-drefn a'r llall ar gyfer pobl ifanc ddigartref
- **Cyngor Dinas Westminster** – ystyriwyd symud ymlaen ar gyfer defnyddwyr hŷn
- **Cyngor Dinas Efrog** – defnyddiwyd MOPP fel ffordd o ddatblygu'r dull aml-asiantaeth o weithio gyda phobl ddigartref yn y ddinas

Mae'r adroddiad llawn y MOPP (*www.homeless.org.uk/policyandinfo/issues/rehousing/fullreport*) yn cynnwys atodiad yn rhestru'r cysylltwyr blaen yn mhob un o'r awdurdodau hyn a'r asiantaethau sy'n bartneriaid iddynt, er y dylid nodi y cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mai 2007 ac y gallai'r cysylltwyr fod wedi newid. Mae'r awdurdodau hyn hefyd yn debyg o fod wedi datblygu ffyrdd eraill o ymdrin â symud ymlaen ers i'r project MOPP ddod i ben.

Cefnogwyd y naw awdurdod lleol a gymerodd ran yn y peilot MOPP i gymryd chwe cham:

- sefydlu partneriaeth – rhoddwyd y cyfrifoldeb i gysylltwyr blaen ar lefel rheolwyr, y naill o'r awdurdod lleol a'r llall o'r sector gwirfoddol, am weithredu'r MOPP, gyda phartneriaeth strategaeth ddigartrefedd yr ardal yn llywio'u gwaith
- gwneud archwiliad symud-ymlaen (gyda chefnogaeth y pecyn a gynhyrchwyd gan y project). Roedd hyn yn golygu casglu gwybodaeth rifol am ofynion symud-ymlaen, mynediad i/cyflenwad o lety symud-ymlaen, ac unrhyw rwystrau a oedd yn atal symud ymlaen yn effeithiol
- cyd-ddatblygu cynllun gweithredu symud-ymlaen strategol i oresgyn unrhyw rwystrau a ddarganfu'r archwiliad (darparwyd patrymlun fel rhan o'r pecyn)
- mesur llwyddiant y gwaith yn erbyn y cynllun gweithredu – cyd-drefnodd y cysylltwyr blaen y gwaith dros gyfnod o 12 mis
- dadansoddiad o hynt y project – yn ystod y 12 mis, byddai'r cysylltwyr blaen yn cwrdd yn rheolaidd i fonitro hynt y gwaith
- adolygu – ar ddiwedd y cyfnod, gwnaed yr archwiliad unwaith eto. Defnyddiwyd y casgliadau ochr yn ochr â'r rhagolygon symud-ymlaen newydd a wnaed yn yr archwiliad i lunio cynllun gweithredol MOPP ar gyfer y flwyddyn ganlynol

Yn sgîl gweithredu'r MOPP yn yr ardaloedd peilot, argymhellwyd y canlynol:

- dylai pob ardal awdurdod lleol wneud archwiliad symud-ymlaen bob blwyddyn yn cynnwys pob math o lety dros-dro ar gyfer pobl ddigartref, a chytuno ar gynllun i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion a rhwystrau a fyddai'n cael eu nodi. Dylai partneriaethau strategaeth ddigartrefedd gyd-drefnu'r broses fel rhan ganolog o strategaethau digartrefedd awdurdodau lleol
- dylid defnyddio'r wybodaeth a fyddai'n deillio o'r archwiliad symud-ymlaen i ddylanwadu ar y cyflenwad o lety symud-ymlaen
- dylai dull cyfannol o ymdrin â symud ymlaen gynnwys mynd i'r afael â rhwystrau i symud ymlaen fel dyraniadau ac enwebiadau i dai cymdeithasol, diffyg defnydd o'r sector rhentu preifat, diffyg mynediad i gymorth a gofal preswyl, a diffyg mynediad i wasanaethau statudol fel asesiadau gofal cymunedol a thriniaeth yn y gymuned ar gyfer camddefnydd sylweddau

Mae pwyntiau dysgu a nodwyd gan yr awdurdodau a oedd yn rhan o'r project MOPP yn cynnwys yr angen am:

- weithio strategol rhwng awdurdodau lleol ac asiantaethau sector gwirfoddol, gydag awdurdodau lleol yn arwain
- edrych ar y system ddigartrefedd yn yr ardal yn ei chrynswth, ac ar y gydberthynas rhwng asiantaethau, gan bwysleisio y dylai pob asiantaeth fod yn cyfranogi
- integreiddio gwaith ar symud ymlaen gyda rhwydweithiau o fforymau sy'n bodoli eisoes, e.e. darparwyr Cefnogi Pobl a fforymau digartrefedd

- i'r sector rhentu preifat gael ei ystyried yn un o elfennau hanfodol strategaethau symud-ymlaen

- i bolisïau dyrannu, enwebu ac eithrio gael eu hadolygu fel y bo'n briodol, gan y gallant fod yn rhwystr sylweddol i symud ymlaen

Nodi a goresgyn y rhwystrau i ddarparu a sicrhau llety symud-ymlaen yn ne-orllewin Lloegr

Comisiynodd y cyn-Gorfforaeth Tai, ar y cyd â Chynulliad Rhanbarthol De-orllewin Lloegr, ymchwil i archwilio'r rhwystrau i sicrhau a darparu llety i symud ymlaen iddo o lety â chymorth yn ne-orllewin Lloegr.

Nododd yr ymchwil nifer o themâu allweddol, fel a ganlyn:

- **ffordd strategol o fynd ati** – mae angen strategaeth symud-ymlaen hollgwmpasog ar lefel Cefnogi Pobl yr awdurdodau lleol, wedi ei llunio yn sgîl archwiliad ac yn seiliedig ar dargedau symud-ymlaen a chynllunio gweithredol. Dylai'r sector rhentu preifat fod yn rhan gynhenid o'r fath strategaethau yn ogystal â gwaith ar y cyd rhwng asiantaethau i ymdrin â gweinyddu Budd-dâl Tai

- **y cyflenwad tai** – mae gofyn rhoi blaenoriaeth uwch i lety symud-ymlaen o fewn penderfyniadau buddsoddi rhanbarthol

- **mynediad i'r cyflenwad** – mae angen system gyson a thryloyw o sicrhau mynediad ar draws yr awdurdodau lleol, ar sail protocol cyffredin rhwng awdurdodau lleol, Cefnogi Pobl, landlordiaid a darparwyr cefnogaeth

- **adsefydlu, cynllunio cefnogaeth, a chymorth symudol** – mae gan gymorth symudol swyddogaeth bwysig cyn y denantiaeth ac wedi hynny o ran hwyluso symud ymlaen

- **rhwystrau yn ymwneud â chleientiaid** – mae angen cynllunio cefnogaeth a hyfforddiant ar gyfer cleientiaid i'w helpu i sicrhau llety symud-ymlaen a dal gafael arno. Gall hanes rhai cleientiaid olygu eu bod yn ei chael hi'n anodd iawn symud ymlaen am eu bod wedi eu heithrio gan ddarparwyr tai neu oherwydd canfyddiadau landlordiaid sector preifat

- **rhwystrau yn ymwneud â staff** – mae angen hyfforddiant ar weithwyr proffesiynol i sicrhau fod ganddynt ddealltwriaeth wybodus o'r dewisiadau a'r gallu i ymdopi â disgwyliadau afrealistig ac ysgogi defnyddwyr gwasanaethau i symud ymlaen

- **dyluniad gwasanaethau a rheolaeth achosion** – gall datrys problem symud-ymlaen olygu bod ag amrywiaeth o fathau o lety, a dylid cwmpasu hynny o fewn y ffordd yr eir ati i gomisiynu, h.y. canfod ac ymdrin â gwasanaethau fel rhan o rwydweithiau neu lwybrau yn hytrach na'u hystyried fel rhywbeth ar wahân

Neges waelodol yr ymchwil oedd fod her symud ymlaen yn ymwneud â chynhwysedd cymdeithasol a chefnogaeth lawn cymaint â sicrhau'r cyflenwad brics-a-morter, a bod angen amrywiaeth o atebion trawstoriadol ar y lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

London Housing Foundation: y rhaglen sector rhentu preifat

Mae gan y London Housing Foundation raglen bwysig ar hyn o bryd gyda'r sector rhentu preifat sy'n canolbwyntio'n neilltuol ar sut y gall fod yn adnodd effeithiol ar gyfer pobl sengl ddigartref, yn cynnwys eu galluogi i symud ymlaen.

Daw cyhoeddiad 2008, **Improving access to the private rented sector for homeless single people in London** i'r casgliad fod angen ehangu'r cyfleoedd i bobl sengl ddigartref allu manteisio ar lety wedi ei rentu'n breifat. Mae'r argymhellion parthed sut i sicrhau hynny yn canolbwyntio ar:

- ehangu'r cyflenwad o lety rhentu preifat – mae lle i annog mwy o fuddsoddi sefydliadol

- ei wneud yn fwy hygyrch – drwy gynlluniau ernes a gwarant, sicrhau fod budd-dâl tai yn cael ei dalu'n ddiymdroi, cynlluniau achredu, a gwaith ar y cyd gydag asiantaethau gosod eiddo

- gwneud rhenti'n fwy fforddiadwy – drwy ddefnyddio Taliadau Tai Dewisol

- sicrhau fod mwy o denantiaethau tymor-hwy ar gael – fel yr awgrymodd Comisiwn y Gyfraith

- sicrhau tai a rheolaeth tenantiaethau o ansawdd – drwy gyfryngu yn hytrach na thrwy orfodaeth gyfreithiol

- darparu cymorth gyda'r denantiaeth lle bo angen – fel rhan o gymorth cyffredinol gyda thenantiaethau

Mae'r cyhoeddiad, **Private Access, Public Gain** yn archwilio defnyddio cynlluniau mynediad i'r sector preifat. Mae cynlluniau o'r fath yn cynnig:

- sicrwydd ariannol i'r landlord yn erbyn colledion rhent, niwed, lladrad, ac ati

- mis o rent o flaen llaw a phrosesu hawliadau budd-dâl tai yn gyflymach

- safonau isafswm o ran cyflwr yr eiddo, arferion rheoli a hyd tenantiaethau er mwyn eu gwneud yn fwy atyniadol i denantiaid posibl

- asesu anghenion pob tenant yn ofalus i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi â byw'n annibynnol

- cefnogaeth i'r landlord a thenantiaid er mwyn sicrhau perthynas landlord/tenant lwyddiannus

Mae'r cyhoeddiad yn edrych ar y ddadl economaidd o blaid cynlluniau rhoi mynediad i'r sector preifat yr amcangyfrifir eu bod yn costio rhyw £4,200 y preswylydd (£1,600 mewn taliadau i landlordiaid a chostau cymorth symudol o ryw £2,600 am flwyddyn). Nodir mai'r ffynonellau cyllid posibl yw Cefnogi Pobl, grantiau penodol i ardal neilltuol, cyd-gyllidebau triniaeth, cyllid atal digartrefedd, y Rhaglen Ymyriad Cyffuriau (DIP), a chyllid iechyd a gofal cymdeithasol. Nodir fod yr arian y gellid ei arbed rywle rhwng £4,900 ar gyfer rhywun mewn hostel a £13,747 ar gyfer rhywun mewn gofal cofrestredig.

Mae cyhoeddiad mis Rhagfyr 2008, **Private rented homes for single homeless people: strategies in three London boroughs** yn archwilio strategaethau ar gyfer gwella cyfleoedd i bobl symud ymlaen i'r sector rhentu preifat yn y tri bwrdeistref Llundeinig sydd â'r nifer fwyaf o bobl mewn hosteli

(Camden, Tower Hamlets a Westminster). Mae'r tri bwrdeistref wedi canfod prinder sylweddol yn y nifer o lefydd sydd eu hangen mewn llety symud-ymlaen ar gyfer defnyddwyr eu gwasanaethau, ac maent yn bwrw ymlaen mewn amryw o ffyrdd i gynyddu defnydd o'r sector rhentu preifat fel un dewis symud-ymlaen.

Mae'r tri bwrdeistref wedi nodi nifer o ffyrdd o wella'r wybodaeth ar gyfer preswylwyr a staff hosteli ynglŷn â'r gobaith o gael llety cymdeithasol a'r dewisiadau yn y sector rhentu preifat. Mae'r rhain yn cynnwys trafodaethau cyson o flaen llaw gyda phreswylwyr am eu cynlluniau adsefydlu, addysg gan eu cymheiriaid, a hyfforddi staff. Dywedir fod y rhain wedi effeithio'n bositif o ran newid agweddau. Mae rhai cynlluniau yn cynnwys cymhelliad ariannol i breswylwyr hefyd: mae Westminster yn cynnig taliad unwaith-ac-am-byth o £300 i breswylwyr mewn un hostel i'w helpu i symud i mewn i lety yn y sector rhentu preifat, ac mae cynllun peilot bychan sy'n darparu ernes rhent yn caniatáu i unigolion gadw unrhyw arian sydd dros ben wedi iddynt dalu'r ernes a'r rhent cychwynnol o daliad o £1500 ar gyfer llety hunan-gynhwysol (£1000 ar gyfer llety sy'n cael ei rannu). Yn Camden a Westminster, ceir polisi o fygwth troi allan o'r hostel os gwrthoda preswylwyr dderbyn cynnig rhesymol yn y sector rhentu preifat.

Mae'r tri bwrdeistref yn cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau i helpu pobl i fanteisio ar y sector rhentu preifat. Mae'r rhain yn cynnwys help i ddod o hyd i denantiaeth, ernesau a gwarantau rhent, rhent o flaen llaw, taliadau cymhelliad eraill (i landlordiaid sy'n cynnig eiddo, ac ati), marchnata cynlluniau i landlordiaid, darparu cyngor a chymorth i landlordiaid, a sicrhau fod cefnogaeth gyda thenantiaethau ar gael pan fo angen.

Traws-symudiad pobl ifanc drwy wahanol fathau o lety

Comisiynodd Sefydliad Joseph Rowntree ymchwil ar ffurf cyfres o drafodaethau a digwyddiadau ledled y DU gyda phobl ifanc ac ymarferwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn mynegi eu barn ar faterion yn ymwneud â'r traws-symudiad i fyw'n annibynnol.

Roedd y pwyntiau allweddol a ddeilliodd o'r ymchwil, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2008, yn cynnwys y canlynol:

- roedd y cyfranogwyr yn y trafodaethau yn gweld traws-symud i fyw'n annibynnol fel proses yn hytrach na digwyddiad unigol. Teimlai ymarferwyr ei bod hi'n hanfodol caniatáu i bobl ifanc 'fethu' neu newid cyfeiriad yn ystod y broses hon
- credid fod rhwydwaith cefnogol hyblyg yn hanfodol o ran galluogi pobl ifanc i gwblhau'r traws-symudiad i fyw'n annibynnol, gan symud drwy wahanol fathau o lety
- roedd y trafodaethau'n tanlinellu'r ffaith fod diffyg amrywiaeth digonol o ddewisiadau llety fforddiadwy ar gyfer pobl ifanc mewn pob math o ddeiliadaethau tai.

Pwyntiau i grynhoi

- Roedd ymchwil flaenorol ar symud ymlaen a wnaed yn Lloegr yn cynnwys nifer o bwyntiau y gallai awdurdodau Cymru a'r asiantaethau sy'n bartneriaid iddynt ddysgu ganddynt, yn cynnwys yr angen am:
  - ystyried pob rhwystr posibl i symud ymlaen, yn cynnwys canfyddiadau defnyddwyr gwasanaethau a staff, a darganfod ffyrdd o fynd i'r afael â'r rhain
  - ystyried pob dewis o lety, a pheidio â dibynnu'n ormodol ar dai cymdeithasol fel ffynhonnell llety symud-ymlaen
  - ffordd strategol o fynd ati, gydag awdurdodau lleol yn arwain
  - arolwg o ddulliau dyrannu tai cymdeithasol i sicrhau dileu rhwystrau annerbyniol
- Mae dadl economaidd o blaid symud ymlaen i mewn i'r sector rhentu preifat

4 Nodyn cynghori ar symud ymlaen
Symud ymlaen yn ymarferol

Mae'r adran hon o'r nodyn cynghori yn darparu cyfres o enghreifftiau ymarferol o'r modd y mae amrywiaeth o awdurdodau lleol a'r asiantaethau sy'n bartneriaid iddynt wedi mynd i'r afael â symud ymlaen. Mae'r wybodaeth o dan dri phen:

- bod yn strategol
- datblygu a gweithredu mecanweithiau symud-ymlaen
- cynyddu'r amrediad o opsiynau symud-ymlaen

Bod yn strategol

Mae'r holl fentrau symud-ymlaen a nodwyd gan yr arolwg sy'n sail i'r nodyn cynghori hwn wedi deillio o'r ffaith fod yr awdurdod lleol perthnasol wedi nodi fod symud ymlaen yn broblem iddo ac wedi arwain y ffordd o ran datblygu ymateb partneriaeth, boed yr ymateb hwnnw yn canolbwyntio ar dai cymdeithasol, y sector rhentu preifat, yn ddau sector, neu ar grŵp neilltuol o gleientiaid.

Datblygodd pob un o'r awdurdodau a gyfranogodd yn y project Protocol Cynlluniau Symud Ymlaen gynlluniau symud-ymlaen gyda chymorth y pecyn cyfarpar a ddatblygwyd fel rhan o'r project (*www.homeless.org.uk/policyandinfo/issues/rehousing/mopp*). Lluniwyd y cynlluniau hyn ar sail archwiliad symud-ymlaen y cafodd rhai awdurdodau hi'n anodd ei gyflawni y tro cyntaf. Fodd bynnag, roedd y broses yn darparu tystiolaeth y gellid gweithredu arno yn hytrach na dibynnu ar hanesion personol.

Nododd yr arolwg fod gwahanol awdurdodau'n mynd ati mewn ffyrdd gwahanol:

- Mae Cyngor Dinas Leeds yn comisiynu ei wasanaethau Cefnogi Pobl gan ddefnyddio model pedair-rheng y gall pobl symud drwyddo
- Mae Camden a Brighton a Hove wedi mabwysiadu llwybrau i mewn i lety, ar gyfer preswylwyr hosteli yn achos Camden, a phobl ifanc yn achos Brighton a Hove
- Mae Torbay wedi ystyried symud ymlaen strategol fel rhan o weithrediad ei Ganolbwynt Atgyfeirio Cefnogi Pobl, sef y pwynt mynediad ac atgyfeirio i bawb sydd am ddefnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl yr awdurdod
- Mae Abertawe wedi datblygu strategaeth symud-ymlaen sy'n canolbwyntio ar bobl sengl a pharau heb blant a rhai teuluoedd, gan fynd ati mewn ffordd aml-asiantaeth
- Nid yw Sir Ddinbych, hyd yma, wedi datblygu dull o fynd i'r afael â symud ymlaen i'r un graddau â'r awdurdodau uchod: comisiynodd ddarn o waith gan ymgynghorwyr allanol, ac mae newydd ddechrau gweithredu'r argymhellion hynny

Leeds – model pedair-rheng

Mae Cyngor Dinas Leeds yn defnyddio model pedair-rheng ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir gan Cefnogi Pobl. Mae'r gwasanaethau comisiwn wedi eu trefnu'n bedwar grŵp gwahanol ond cyd-ddibynnol o wasanaethau:

- ataliaeth – gwasanaethau sy'n ymyrryd er mwyn atal argyfwng neu ddigartrefedd
- brys – gwasanaethau sy'n ymateb i argyfwng neu ddigartrefedd
- adsefydlu 1 a 2 – tai â chymorth a mathau eraill o gymorth i helpu defnyddwyr gwasanaethau i symud ymlaen o wasanaethau brys ac adsefydlu pobl yn ôl yn y gymuned ehangach
- cynhaliaeth – pecynnau pen-agored, tymor-hwy sy'n galluogi pobl i barhau i fyw'n annibynnol

Nod y model pedair-rheng yw:

- atal y cylch digartrefedd
- atal gorfod dod o hyd i lety i bobl dan amgylchiadau brys
- symleiddio patrwm y gwasanaethau, a
- darparu swyddogaeth glir ar gyfer gwasanaethau darparu cymorth tai

Mae'r model hwn yn cynnig eglurdeb i ddarparwyr gwasanaethau, asiantaethau atgyfeirio a defnyddwyr y gwasanaeth parthed pwrpas gwasanaethau penodol, ac yn dangos sut mae'r gwasanaethau yn cydgysylltu. Mae targedau caeth ar gyfer symud pobl drwy'r system a therfyn amser ar arhosiad yn creu pwyslais ar symud pobl drwy'r gwahanol rengoedd, o sefyllfa frys i adsefydlu. Fel rhan o'r fframwaith mae'r Cyngor yn gweithio gyda darparwyr tai lleol i ddileu mesurau eithrio amhriodol o bolisïau ac arfer wrth osod eiddo sy'n atal pobl ddiymgeledd rhag gallu cael llety addas.

Mae'r dull hwn o fynd ati yn canolbwyntio ar sut mae gwasanaethau a gyllidir gan Cefnogi Pobl yn cael eu comisiynu. Fodd bynnag, mae gwaith gyda darparwyr tai cymdeithasol yn angenrheidiol i sicrhau y gall pobl symud drwy wasanaethau wrth i'w hangen am gymorth leihau.

Nid yw'r model hwn wedi dileu anawsterau symud ymlaen yn llwyr, ond o leiaf mae'r broses symud-ymlaen yn cael ei rheoli'n weithredol bellach.

Gwybodaeth bellach

www.leeds.gov.uk/Housing/Supported_and_sheltered_housing/Housing__support_to_tenants.aspx

Camden –model llwybrau, hosteli

Dechreuodd Camden ddefnyddio'r model llwybrau ym mis Ebrill 2007 gyda'r holl wasanaethau tymor-byr a gyllidir gan Cefnogi Pobl ar gyfer pobl sengl ddigartref sydd ag angen cymorth, pobl â phroblemau camddefnydd sylweddau, troseddwyr a phobl ifanc ddiymgeledd. Ymunodd y gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol a hosteli Camden â'r llwybr, y naill ym mis Hydref a'r llall ym mis Tachwedd 2007.

Y pedwar prif gam yn y model llwybr hosteli yw:

- asesu
- cymorth arbenigol (yn cynnwys iechyd meddwl, cyn-droseddwyr, camddefnydd sylweddau)
- cynnydd
- symud drwodd

Elfennau allweddol y model yw:

- lefelau neu gyfnodau o newid a chynnydd
- dynodi asiantiaid atgyfeirio y cytunwyd arnynt
- symud drwodd a symud ymlaen yn amserol
- dogfennau a chynlluniau gweithredu safonol
- egwyddorion craidd a safonau lleiafswm
- diogelwch cymunedol a rheoli unrhyw broblemau yn y gymdogaeth

Mae Camden wedi datblygu 'gwelyau aml-eithriad' lle darperir cymorth ychwanegol ar gyfer pobl sydd wedi cael eu troi allan neu sydd mewn perygl o gael eu troi allan o wasanaethau llwybr.

Awgrymai gwerthusiad cynnar fod y llwybr wedi cyflawni llawer a chynhyrchu buddiannau gwirioneddol.

Gwybodaeth bellach

www.camden.gov.uk/ccm/content/housing/general-housing-information/supporting-people/hostels-pathway---provider-resources.en

www.camden.gov.uk/ccm/content/contacts/council-contacts/housing/contact-the-pathways-move-on-team.en

Brighton a Hove, model llwybrau, pobl ifanc

Mae Cyngor Brighton a Hove yn defnyddio model llwybrau ar gyfer pobl ifanc sy'n canfod a chefnogi pobl ifanc sy'n symud o fod yn ddigartref tuag at fyw'n annibynnol. Nod y model yw galluogi pobl i symud drwy'r gwasanaethau mewn ffordd strwythuredig, gyda symud ymlaen i'r rheng nesaf yn rhan allweddol o gynllunio cefnogaeth ar eu cyfer.

Ceir tri cham dilynol o fewn y gyfundrefn tai â chymorth:

- hosteli
- cymorth symudol dwys
- cefnogaeth strwythuredig lefel-isel – ar gyfer tenantiaid sy'n byw yn y sector preifat yn bennaf, gyda phobl ifanc yn cael eu hannog i rannu fflatiau gydag eraill

Pen draw'r llwybr yw byw'n annibynnol gyda chymorth gweithwyr cynnal tenantiaeth. Mae gan bob person ifanc sy'n symud i mewn i lety annibynnol gynllun ailymrwymo rhag ofn y bydd angen mwy o gymorth arnynt.

Mae'r llwybr yn rhan gynhenid o strategaeth digartrefedd ieuenctid y cyngor, sy'n cynnwys targedau ar gyfer symud ymlaen o gymorth mwy dwys i gymorth llai dwys.

Mae bodolaeth neu ddatblygiad amrywiaeth o fathau o lety symud-ymlaen yn allweddol i lwyddiant y llwybr, fel bod pobl ifanc yn gallu symud drwy'r gwahanol gamau heb gael eu hatal gan ddiffyg llety â'r lefel briodol o gymorth.

Gwybodaeth bellach

www.brighton-hove.gov.uk/index.cfm?request=c1157503

Torbay – symud ymlaen strategol

Mae Cyngor Torbay wedi ystyried symud ymlaen strategol fel rhan o ddatblygiad ei Ganolbwynt Atgyfeirio Cefnogi Pobl ar gyfer pob gwasanaeth Cefnogi Pobl yn yr ardal.

Nod symud ymlaen strategol yw galluogi rhywun i symud allan o broject tai â chymorth er mwyn i rywun newydd sydd â blaenoriaeth uchel allu symud i mewn.

Darperir nifer o unedau llety sector preifat bob blwyddyn gan landlordiaid sy'n derbyn cyllid grant gan yr awdurdod i hwyluso symud ymlaen strategol o brojectau a gyllidir gan Cefnogi Pobl.

Bydd Cefnogi Pobl yn cyfrannu at y cyfrif ernes rhent i hwyluso symud ymlaen strategol i mewn i'r sector rhentu preifat.

Bydd unigolion sy'n byw mewn llety â chymorth, sy'n barod i symud ymlaen ac sydd wedi eu cofrestru gyda chynllun gosod ar sail dewis y cyngor yn cael eu gosod yn y band uchaf. Mewn amgylchiadau penodol, dyfernir cerdyn brys pan fydd symud ymlaen yn rhyddhau lle mewn project a fydd yn cael ei lenwi gan rywun sydd mewn sefyllfa frys, e.e. yn disgwyl cael ei ryddhau o'r ysbyty.

Gwybodaeth bellach

www.torbay.gov.uk/index/housing/supportingpeople/accessingspservices.htm

Abertawe

Partneriaeth rhwng yr awdurdod lleol, tri landlord cymdeithasol cofrestredig a gwahanol asiantaethau statudol a gwirfoddol yw strategaeth symud-ymlaen Abertawe, ac fe'i hwylusir gan yr awdurdod lleol. Cyd-drefnir y bartneriaeth gan is-grŵp o Dîm Cynllunio Strategaeth Ddigartrefedd y Cyngor, sef cynrychiolwyr o bob un o'r aelod-sefydliadau.

Nod y strategaeth yw cynorthwyo pobl sengl, parau heb blant a rhai teuluoedd sy'n barod i symud ymlaen i'w llety eu hunain o lety dros-dro neu lety â chymorth, gan ryddhau'r lle hwnnw ar gyfer pobl eraill sydd â'i angen.

Fe fydd y rheini a all ymgeisio am lety symud-ymlaen:

- yn byw ar y pryd mewn llety â chymorth a ddarperir gan unrhyw aelod o grŵp cyd-drefnu'r strategaeth symud-ymlaen
- wedi ei hatgyfeirio gan asiantaeth (nid ganddynt eu hunain), gyda chysylltiad lleol derbyniol, ac yn barod i gydweithio â'r cymorth a ddarperir

Bydd darparwyr tai ac asiantaethau atgyfeirio sydd â phobl i'w hatgyfeirio yn mynychu cyfarfodydd misol lle trafodir achosion.

Yn gryno, dyma yw'r drefn:

- caiff teuluoedd sy'n byw mewn projectai llety â chymorth sy'n barod i symud i mewn i lety mwy annibynnol eu hatgyfeirio gan eu gweithiwr cefnogol
- anfonir atgyfeiriadau at y cyd-drefnydd symud-ymlaen sy'n cadarnhau eu bod yn gymwys ac yn addas
- fel rhan o'r atgyfeiriad llunir cynllun cefnogi ar gyfer y teulu sy'n ateb ei holl anghenion
- ar sail y wybodaeth a ddarperir gan y sefydliad cefnogi, bydd y grŵp yn ystyried a all y teulu lwyddo mewn tenantiaeth annibynnol â chymorth
- caiff y cais naill ai ei dderbyn ar y rhestr aros am ailgartrefu, ei ohirio i ddisgwyl gwybodaeth gefnogol ychwanegol, neu tan y credir fod y teulu'n barod i symud i'w llety eu hunain, neu ei wrthod oherwydd ei bod hi'n amhriodol ailgartrefu drwy gyfrwng y strategaeth symud-ymlaen
- dyfernir pwyntiau i'r rheini sy'n cael eu derbyn ar restr aros y Cyngor (nifer cyfwerth â'r pwyntiau a ddyfernir i rai teuluoedd y derbynir eu bod yn ddigartref) a chaiff eu manylion eu cylchredeg i bartneriaid o gymdeithasau tai
- gofynnir i'r holl ddarparwyr tai cymdeithasol parhaol sy'n rhan o'r grŵp gynnig llety addas ar gyfer teuluoedd sydd wedi cael eu rhoi ar y rhestr aros
- gall defnyddwyr gwasanaethau sy'n gwrthod dau gynnig addas gael eu tynnu oddi ar y rhestr
- bydd y cydgysylltu'n parhau ar ôl ailgartrefu, a rhoddir adborth i'r grŵp cyd-drefnu

O ganlyniad i'r cynllun, bydd rhyw 40 uned o lety y flwyddyn ar gael ar gyfer pobl sydd ag angen symud ymlaen.

Roedd y pwyntiau dysgu a nodwyd gan Abertawe yn cynnwys y canlynol:

- mae cysondeb ymhlith aelodau'r grŵp cyd-drefnu yn hanfodol – dylai pob landord cymdeithasol lleol, darparwyr cymorth a sefydliadau sy'n darparu llety yn y sector preifat, fel cynlluniau bondiau, oll fynychu cyfarfodydd
- rhaid i'r awdurdod lleol ymrwymo adnoddau gweinyddol i'r strategaeth
- rhaid i bob partner-sefydliad gydnabod eu cyfraniad i agendâu, yn cynnwys lleihau cysgu allan, gwella trosiant, creu tenantiaethau cynaliadwy, a lleihau ac atal digartrefedd
- mae monitro cyson a digwyddiadau sy'n rhannu a dathlu llwyddiant yn bwysig
- rhaid i'r berthynas rhwng partner-sefydliadau fod yn seiliedig ar ymddiriedaeth, gonestrwydd, ymrwymiad i gynhyrchu'r ateb gorau ar gyfer yr unigol, a heb ragfarn yn erbyn rhai sydd ag angen symud ymlaen
- dylid holl anghenion cymorth teuluoedd sy'n symud ymlaen fod wedi eu diwallu cyn cychwyn y denantiaeth

Gwybodaeth bellach
Martin.Whatty@Swansea.gov.uk

Sir Ddinbych – comsiynu arolwg o symud-ymlaen

Yn 2008, comisiynodd Tîm Cefnogi Pobl Cyngor Sir Ddinbych ymgynghorwyr allanol i wneud arolwg o symud ymlaen. Golygai'r arolwg:

- gynnal cyfarfodydd gyda budd-ddeliaid allweddol yn cynnwys darparwyr tai â chymorth a chymorth symudol
- cyfweliadau dros y ffôn gyda darparwyr tai â chymorth a landlordiaid preifat
- arolwg o ddogfennau cyngor perthnasol
- arolwg o ffurflenni monitro a ddychwelwyd i'r Tîm Cefnogi Pobl
- arolwg o lenyddiaeth ac arfer ledled y DU

Edrychodd yr arolwg ar:

- hyd a lled y broblem, a pha brojectau tai â chymorth oedd yn teimlo'r effaith fwyaf
- effaith problemau symud-ymlaen
- y rhwystrau i bobl sy'n ceisio llety symud-ymlaen
- atebion posibl i'r problemau a nodwyd

Roedd yr argymhellion a wnaed ar sail darganfyddiadau'r arolwg yn canolbwyntio ar wella arweiniad strategol, gweithio mewn partneriaeth, monitro, cymorth i alluogi pobl i symud ymlaen, mynediad i dai cymdeithasol a'r sector rhentu preifat, ansawdd a chost llety yn y sector rhentu preifat, yn ogystal â mynd i'r afael â'r ffaith fod gormod o lety symud-ymlaen wedi ei grynhoi mewn un ardal.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn awr yn bwriadu gweithredu argymhellion yr arolwg. Mae'r cyngor yn recriwtio cyd-drefnydd project i arwain cyfres o grwpiau gorchwyl a gorffen; bydd pob grŵp yn gweithredu set o argymhellion ar thema neilltuol. Bydd cyd-drefnydd y project yn rhan o'r tîm strategaeth tai.

Gwybodaeth bellach

Jenny Elliott, Rheolydd y Tîm Cefnogi Pobl, jenny.elliot@denbighshire.gov.uk

Datblygu a gweithredu mecanweithiau symud-ymlaen

Mae llawer o fecanweithiau symud-ymlaen yn golygu bodolaeth panel neu grŵp aml-asiantaeth sydd â'r swyddogaeth o dderbyn atgyfeiriadau gan y sefydliadau hynny sy'n cynnal pobl mewn llety â chymorth neu dros-dro, a phenderfynu p'run ai y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt o safbwynt mynediad i dai cymdeithasol neu eu cynnig ar gyfer llety symud-ymlaen yn y sector rhentu preifat.

Mae'r rhan fwyaf o'r cynlluniau panel hyn yn cydnabod y gall fod gan lawer o'r bobl sy'n gobeithio symud ymlaen o lety â chymorth neu dros-dro angen cymorth parhaus, ac felly mae asesiad o'r anghenion cymorth hyn yn rhan o'r broses atgyfeirio. Mae cynlluniau'n amrywio parthed a oes disgwyliad y bydd yr asiantaeth atgyfeirio yn parhau i gefnogi'r unigolyn sy'n symud ymlaen neu a ellir darparu cymorth symudol ar gyfer y fath unigolion.

Yng Nghymru, y cynllun panel symud-ymlaen mwyaf datblygedig yw'r un a ddatblygwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Cafodd gwerthusiad o broses symud-ymlaen yr awdurdod fod y mwyafrif helaeth o'r tenantiaethau a ddarparwyd wedi cael eu cynnal, ond hefyd fod pobl yn gorfod disgwyl am gyfnodau amrywiol iawn am y cyfle i symud ymlaen.

Ochr yn ochr â phanel aml-asiantaeth a all dderbyn, gohirio i ddisgwyl gwybodaeth bellach, neu wrthod atgyfeiriadau ar gyfer symud ymlaen, mae systemau blaenoriaethu ar gyfer ailgartrefu mewn tai cymdeithasol i'w canfod o fewn prosesau symud-ymlaen. Yn ymarferol, gall y fath flaenoriaethu olygu:

- eu bod yn derbyn lefel uchel o bwyntiau neu flaenoriaeth o fewn cynlluniau dyrannu awdurdod lleol neu rai ar y cyd
- bod â chyfran benodol o eiddo ar gael i'w osod fel llety symud-ymlaen y tu allan i'r trefniadau enwebu sydd eisoes yn bodoli
- neilltuo cyfran benodedig o enwebiadau ar gyfer llety symud-ymlaen o fewn cwmpas cytundebau enwebu
- defnyddio perthynas bositif rhwng yr awdurdod lleol a'i bartneriaid o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i gynhyrchu llety ar gyfer ymgeiswyr symud-ymlaen fel y bo'r angen

Un broblem gyda chynlluniau sy'n dibynnu ar ddyrannu ar sail blaenoriaethu yw faint o flaenoriaeth a roddir i'r rhai a dderbynir ar gyfer llety symud-ymlaen. Darganfu nifer o awdurdodau sy'n defnyddio'r dull hwn nad ydynt wedi rhoi digon o flaenoriaeth i bobl a atgyfeiriwyd ar gyfer llety symud-ymlaen i'w galluogi i symud ymlaen o fewn cyfnod rhesymol, a bu'n rhaid rhoi blaenoriaeth uwch i'r unigolion hynny.

Pen-y-bont ar Ogwr

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi datblygu strategaeth symud-ymlaen yn ddiweddar ar y cyd â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig lleol a gwahanol asiantaethau statudol a gwirfoddol sy'n gweithio yn y cylch. Y nod yw cynorthwyo pobl sengl a pharau heb blant sy'n barod i symud ymlaen i lety parhaol o lety dros-dro â chymorth, ac unigolion a theuluoedd a fydd ag angen cymorth parhaus pan gânt eu symud i lety parhaol.

Ceir grŵp symud-ymlaen o fewn y Grŵp Partneriaeth Cefnogi Anghenion. Aelodau'r grŵp yw asiantaethau atgyfeirio, darparwyr tai a darparwyr cymorth, a mudiadau a all gynghori'r grŵp ar broblemau penodol.

Mae'r grŵp symud-ymlaen yn cyfarfod yn fisol i ystyried cleientiaid sy'n dymuno cael eu hailgartrefu drwy'r strategaeth symud-ymlaen a atgyfeiriwyd gan aelodau'r grŵp. Gall y grŵp dderbyn, gwrthod neu ohirio atgyfeiriadau. Mae'r rhai a dderbynir yn mynd ar y rhestr aros am lety symud-ymlaen a dyfernir iddynt y lefel briodol o bwyntiau angen tai yng nghyd-destun cynllun dyrannu'r cyngor. Caiff uchafswm o ddau gynnig rhesymol eu gwneud.

Mae'n ofynnol cynnwys trefniadau i ateb anghenion cymorth parhaus fel rhan o'r atgyfeiriad.

Bydd y grŵp symud-ymlaen yn monitro'r nifer o denantiaethau a gynigir i atgyfeiriadau symud-ymlaen wedi eu dadansoddi fesul darparydd ac ardal.

Nod yr awdurdod lleol yw fod 10-20% o'i enwebiadau yn canolbwyntio ar ateb y galw am lety symud-ymlaen. Caiff unrhyw unedau o lety a gynigir i rai sy'n symud ymlaen eu prosesu drwy'r trefniadau enwebu presennol.

Y cyngor sy'n gweinyddu'r rhestr aros am lety symud-ymlaen a bydd yn cydosod ystadegau i'w hystyried gan y grŵp symud-ymlaen.

Mae strategaeth symud-ymlaen Pen-y-bont ar Ogwr yn newydd ac ni fu ymgais i'w gwerthuso hyd yn hyn.

Gwybodaeth bellach

Jacqui.Ace@bridgend.gov.uk

Caerdydd

Mae strategaeth adsefydlu Cyngor Caerdydd yn golygu fod y cyngor a'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy'n bartneriaid iddo yn darparu 5% o'r llefydd gwag (yn ychwanegol at y rheini a ddarparwyd eisoed o dan gytundebau enwebu) i ddibenion adsefydlu o lety statudol ac anstatudol a ddarperir gan sefydliadau cefnogi.

Datblygwyd y strategaeth o ganlyniad i ymchwil a gomisiynwyd drwy'r strategaeth ddigartrefedd a nododd mai ychydig iawn o drefniadau symud-ymlaen ffurfiol a oedd yn bodoli rhwng darparwyr a landlordiaid yng Nghaerdydd a bod y ffaith fod pobl, o ganlyniad, yn llenwi gwelyau am gyfnodau maith yn problem. Mae'n rhan o strategaeth ddigartrefedd gyffredinol y cyngor.

Recriwtiwyd cyd-drefnydd adsefydlu ar secondiad dros-dro er mwyn arwain datblygiad y strategaeth.

Amcanion y strategaeth adsefydlu yw:

- sicrhau fod unigolion a atgyfeiriwyd yn y modd priodol sydd ag angen llety mwy sefydlog yn cael eu hailgartrefu o fewn cyfnod rhesymol. Bydd hyn yn helpu i greu mwy o welyau ar gyfer yr unigolion mwy diymgeledd sydd mewn hosteli, rhai ysbytai a chynlluniau lletya â chymorth, a thrwy hynny, yn cynorthwyo'r cyngor i gyflawni ei ddyletswydd statudol tuag at bobl ddigartref yng Nghaerdydd
- cynnig cymorth a chyngor priodol i unigolion a atgyfeiriwyd, i'w cynorthwyo i allu cynnal tenantiaethau gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn y tymor hir

Cychwynnodd cynllun peilot ym mis Ionawr 2008 gyda phedwar darparydd llety hostel/â chymorth, Cyngor Caerdydd, a phob landlord cymdeithasol cofrestredig sydd ag eiddo yng Nghaerdydd. Arwyddwyd Cytundebau Lefel Gwasanaeth gyda'r projectau a oedd yn rhan o'r cynllun, gyda rheolwyr y projectau yn cytuno i fonitro pob atgyfeiriad adsefydlu o ran ansawdd a phriodoldeb.

Sefydlwyd panel adsefydlu i ystyried atgyfeiriadau bob pythefnos. Aelodau'r panel yw swyddogion y cyngor a chynrychiolwyr o'r sefydliadau cymorth, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a'r tîm cefnogi tenantiaid.

Sefydlwyd cronfa ddata er mwyn monitro gweithrediad y strategaeth adsefydlu, gyda'r ymdrech i gyrraedd y nod y cytunwyd arno o 5% o'r eiddo a osodir gan bob landlord cymdeithasol cofrestredig yn cael ei monitro'n gyson.

Yn sgîl cyfnod peilot llwyddiannus, estynwyd y cynllun adsefydlu yn raddol i ddarparwyr tai â chymorth eraill. Cafodd arolwg a wnaed yn gynnar yn 2009 fod:

- yr 19 o hosteli/sefydliadau cefnogi a fu'n atgyfeirio drwy'r cynllun wedi atgyfeirio 188 o bobl; cawsai 79 o'r rheini eu derbyn a mwy nag 80% ohonynt eu hadsefydlu mewn tenantiaethau parhaol gyda landlord cymdeithasol cofrestredig neu'r cyngor
- pan adolygwyd y tenantiaethau ar ôl 6 mis, ymddengys fod y mwyafrif yn cael eu cynnal yn llwyddiannus gyda chymorth symudol

Roedd yr adborth gan y sefydliadau cyfranogol yn awgrymu fod y strategaeth wedi bod yn llwyddiannus. Nododd sefydliadau atgyfeirio fod y nifer o bobl a symudodd ymlaen yn llwyddiannus o'u projectau wedi cynyddu , a bod gweld eraill yn symud ymlaen yn annog cleientiaid eraill i fod yn fwy positif ynglŷn â mynd i'r afael â'u problemau er mwyn sicrhau llety symud-ymlaen addas. Nododd darparwyr cefnogaeth eu bod wedi newid eu ffordd o fynd ati fel y gellir darparu cymorth bron yn syth wedi i berson gael ei atgyfeirio.

Yn ychwanegol at hynny, mae tystiolaeth anffurfiol fod mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o'r sector rhentu preifat, drwy atgyfeirio cleientiaid llai anghenus sydd â llai o angen cymorth na'r rhai yr ymdrinir â nhw drwy'r strategaeth adsefydlu.

Gwybodaeth bellach
R.Denyer@cardiff.gov.uk

Sir Gaerfyrddin

Yn hytrach na gweithio drwy banel ffurfiol, mae Cyngor Sir Gaerfyrddin yn cydweithio'n glos gyda darparwyr cefnogaeth unigol er mwyn hwyluso symud ymlaen.

Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin yn cynnal cyfarfodydd misol gyda nifer o ddarparwyr cefnogaeth lle trafodir pobl sy'n symud i mewn i'w project a rhai a ddylai fod yn symud allan. Yn achos projectau sydd â throsiant is o ddefnyddwyr y gwasanaeth, cedwir mewn cysylltiad cyson dros y ffôn.

Penderfynir pa bryd y mae rhywun yn barod i symud ymlaen gan y darparydd cefnogaeth; bryd hynny dyfernir pwyntiau symud-ymlaen o fewn cwmpas y cynllun dyrannu cyffredin y cytunwyd arno gan y cyngor a'i bartneriaid o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

Lle mae'r angen am gefnogaeth yn parhau, bydd y sefydliad sydd eisoes yn darparu cymorth yn gwneud y gwaith cyn-denantiaieth gyda'r unigolyn.

Mae angen cymhwyso'r cynllun pwyntiau ymhellach er mwyn sicrhau fod atgyfeiriadau symud-ymlaen yn derbyn y flaenoriaeth briodol o fewn y cynllun dyrannu cyffredin. Mae'r posibilrwydd o symud ymlaen ar sail yr amser y bu rhywun yn disgwyl yn cael ei ystyried.

Gwybodaeth bellach
CPBeer@carmarthenshire.gov.uk

Rhondda Cynon Taf

Datblygodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf broses symud-ymlaen ar y cyd ag asiantaethau gwirfoddol a statudol. Cychwynnwyd ar y broses fel cynllun peilot ym mis Gorffennaf 2006 a gwnaed gwerthusiad o'r trefniadau yn ystod y cyfnod o Orffennaf 2006 i fis Mawrth 2008.

Gellir atgyfeirio unrhyw un sy'n byw mewn llety â chymorth neu hostel neu sydd wedi bod yng ngofal yr awdurdod lleol o dan y drefniadaeth symud-ymlaen. Y meini prawf ar gyfer blaenoriaethu cleientiaid a atgyfeirir at y panel symud-ymlaen yw:

- gallu'r cleient i ymdopi â thenantiaeth gyda'r cymorth sydd ar gael
- cymhelliant y cleient i lwyddo a gweithio gydag asiantaethau cefnogi
- ystyriaeth o'i hanes tai blaenorol
- diffyg dewisiadau amgen addas
- effaith negyddol arhosiad hwy ar naill ai'r unigolyn neu'r project
- asesiad risg tai
- pobl ifanc sydd mewn gofal ac sydd wedi cyraedd eu 18fed penblwydd

Mae'r atgyfeiriad yn cynnwys asesiad o anghenion cefnogaeth.

Mae'r panel symud-ymlaen yn cynnwys aelodau o blith landlordiaid cymdeithasol cofrestredig lleol, y Ganolfan Cyngor Tai, a'r tîm Cefnogi Pobl. Swyddogaeth y panel yw dyrannu pwyntiau yn unol â'r cynllun dyrannu, neu i wrthod neu ohirio atgyfeiriadau.

Bydd 80 o bwyntiau symud-ymlaen yn cael eu dyfarnu o fewn y cynllun dyrannu y cytunwyd arno gan bartneriaid y gofrestr tai gyffredin i atgyfeiriadau symud-ymlaen a dderbynir gan y panel. Gellir dyfarnu pwyntiau ar sail diffyg sicrwydd tenantiaeth hefyd.

Er mai tai rhent cymdeithasol yw'r rhan fwyaf o bell ffordd o'r llety sydd ar gael drwy fecanwaith y panel symud-ymlaen, ffurfiwyd dolen gyswllt gyda gwaith y cyngor ar gartrefi gwag, ac mae 10 o fflatiau uwchben siopau ar gael bellach fel llety symud-ymlaen.

O fewn cyfnod o 19 mis (Gorffennaf 2006 i Fawrth 2008), atgyfeiriwyd 108 o bobl at y panel symud-ymlaen, gyda 51 o'r rhain yn dod o'r hostel mynediad uniongyrchol. O'r 108, cafodd 18 eu gohirio neu eu gwrthod gan y panel am y rheswm fod angen gwybodaeth fwy manwl er mwyn gallu dod i benderfyniad ynglŷn â symud ymlaen.

O'r 90 o atgyfeiriadau llwyddiannus, cafodd dau eu hailgartrefu heb gymorth y panel symud-ymlaen. O'r 88 arall, cafodd 64 eu hailgartrefu drwy'r mecanwaith symud-ymlaen ac mae 15 yn dal i ddisgwyl (symudodd 6 i ffwrdd, aeth un i'r carchar a chafodd dau eu troi allan cyn cael eu hailgartrefu).

Mae'r amser a gymer i ailgartrefu ymgeiswyr symud-ymlaen yn amrywio'n fawr – o 4 diwrnod i bron 9 mis. Fodd bynnag, mae rhai ymgeiswyr am lety symud-ymlaen wedi gwrthod cynigion o lety a wnaed iddynt.

O'r 64 o bobl a ailgartrefwyd drwy'r mecanwaith symud-ymlaen, roedd 57 o denantiaethau yn cael eu cynnal pan wnaed y gwerthusiad. Nid oedd yr un o'r 7 tenantiaeth nad oedd yn cael eu cynnal wedi dod i ben oherwydd adfeddiannu.

Mae problem hyd yr amser y mae'n rhaid i rai ymgeiswyr am lety symud-ymlaen aros cyn cael eu hailgartrefu yn cael ei datrys drwy gytundeb enwebu newydd gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy'n gwneud ymgeiswyr symud-ymlaen yn gategori penodol. Yn ychwanegol at hynny, penodir Swyddog Cydgysylltu a Pherfformiad a fydd yn gweithio yn y Ganolfan Cyngor Tai; bydd ei swyddogaeth yn cynnwys monitro canlyniadau ymgeiswyr symud-ymlaen yn gyson ac adrodd wrth y Fforwm Cefnogi Pobl a'r Grŵp Monitro Digartrefedd bob chwarter.

Gwybodaeth bellach

Cheryl.A.Emery@rhondda-cynon-taff.gov.uk

Exeter

Mae Panel Symud-ymlaen Exeter yn barnu a ydy pobl sy'n ymadael â thai â chymorth yn barod i symud i fyw'n annibynnol, ac a fydd arnynt angen cymorth symudol er mwyn cynnal y denantiaeth newydd. Mae hefyd yn pennu blaenoriaeth ar gyfer dyrannu llety symud-ymlaen. Caiff atgyfeiriadau y bydd y Panel Symud-ymlaen yn eu cymeradwyo ar gyfer tai cymdeithasol eu gosod yn y band coch, sy'n rhoi'r flaenoriaeth uchaf iddynt ym mhroses ddyrannu **Exeter Homechoice** (y bydd Devon Homechoice yn cymryd ei le).

Mae'r Panel yn gorff aml-asiantaeth sy'n cwrdd bob chwe wythnos i ystyried dewisiadau symud-ymlaen ar gyfer cleieintiaid cymwys sy'n dod at derfyn eu cyfnod ym mhrojectau llety â chymorth Exeter.

Atgyfeirir pobl gan Gyngor Dinas Exeter, darparwyr llety â chymorth, a landlordiaid preifat a gyllidir gan Cefnogi Pobl. Cyn atgyfeirio at y Panel, disgwylir i'r darparydd wneud asesiad anghenion tai llawn er mwyn dangos fod y cleient yn barod i symud, pa fath o lety fydd yn briodol a'r lefel o gymorth parhaus y bydd ei angen yn ystod y broses symud-ymlaen ac wedi hynny.

Er mwyn cael eu hatgyfeirio at y Panel, rhaid i unigolion fod wedi cofrestru gydag Exeter Homechoice a heb fod ag unrhyw ôl-ddyledion rhent neu filiau atgyweirio dyledus gydag unrhyw ddarparwyr tai cymdeithasol. Cyn atgyfeirio, disgwylir i'r darparydd llety â chymorth fod wedi archwilio pob dewis symud-ymlaen priodol.

Gall y Panel ohirio atgyfeiriad tra'n disgwyl am wybodaeth bellach, gwrthod atgyfeiriad neu dderbyn atgyfeiriad am gymorth drwy SmartMove (cynllun bondiau i hwyluso sicrhau tenantiaethau yn y sector rhentu preifat) neu am dai cymdeithasol.

Caiff yr unigolion hynny a dderbynir gan y panel tai cymdeithasol flaenoriaeth uchel o fewn y cynllun gosod ar sail dewis. Disgwylir i'w darparwyr llety â chymorth weithio gyda'r unigolion wedyn i ymgeisio am lety priodol a hysbysebir drwy Exeter Homechoice.

Cefnogir gwaith y Panel gan swyddog symud-ymlaen.

Gwybodaeth bellach

www.exeter.gov.uk/index.aspx?articleid=6143
EMP@exeter.gov.uk

Ehangu'r amrywiaeth o opsiynau llety symud-ymlaen

Nodwyd amryw o enghreifftiau lle rhoddwyd mynediad i'r sector rhentu preifat i nifer o grwpiau cleientiaid. Er nad oedd pob un o'r rhain o fewn cwmpas strategaethau symud-ymlaen, roed yn hawdd gwneud y cysylltiad.

Nodwyd nifer o enghreifftiau hefyd o ddatblygu'r syniad o rannu llety fel dewis symud-ymlaen ar gyfer pobl ifanc.

Mae'r enghreifftiau hyn yn ei gwneud hi'n amlwg fod gan sefydliadau sector gwirfoddol lawer i'w gynnig o ran datblygu atebion dyfeisgar.

Agorfa/Cefni

Mae Agorfa wedi datblygu record dda o hwyluso mynediad i'r sector rhentu preifat, yn cynnwys llety symud-ymlaen, ar gyfer amrywiaeth o grwpiau o gleientiaid diymgeledd yn cynnwys pobl ddigartref, rhai â phroblemau camddefnydd sylweddau a chyn-droseddwyr.

Daeth Agorfa i fodolaeth fel cynllun bondiau, gan ddatblygu drwy'r 1990au a'r 2000au cynnar, gyda'r bond yn mynd yn rhan o becyn ehangach o wasanaethau, yn cynnwys gwaith gyda landlordiaid yn y sector rhentu preifat. Yn ystod 2007/08, adolygodd Agorfa ei ffordd o weithio, a'r canlyniad oedd rhannu ei weithgareddau'n ddwy elfen wahanol:

- Asiantaeth osod a rheoli eiddo cymdeithasol Cefni – mae'r gwasanaethau'n cynnwys darganfod a dethol tenantiaid, casglu rhenti, gwasanaeth gwarantu ernesau a hawliadau, llunio rhestrau eiddo, cynnal a chadw ac atgyweirio, paratoi cytundebau tenantiaeth, ac aelodaeth o Gymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid. Cyllidwyd y datblygiad hwn gan Lywodraeth y Cynulliad a'r nod yw bod yn hunangyllidol erbyn mis Tachwedd 2009

- Agorfa – gweithio gyda defnyddwyr y gwasanaeth drwy'r cyfnodau asesu, cyn-denantiaeth, symud a byw'n annibynnol fel rhan o'i broses adsefydlu

Mae Agorfa/Cefni yn awr yn gweithio gyda 310 o landlordiaid ac mae wedi creu 805 o denantiaethau newydd ers 2004. Hyd tenantiaeth ar gyfartaledd yw 17 mis a dim ond 49 o denantiaethau (6% o'r cyfanswm) sydd wedi methu ers 2004.

Cafodd y sefydliad, wrth iddo weithio gyda chleientiaid mwyfwy diymgeledd, bod angen iddo gefnogi'r tenant a'r landlord ill dau er mwyn cynnal y denantiaeth. Mae hynny wedi ei alluogi i sicrhau mwy o lety ar gyfer grŵp o gleientiaid nad oedd landlordiaid sector preifat yn fodlon eu cartrefu yn y gorffennol.

Mae'r sefydliad yn derbyn nifer gynyddol o atgyfeiriadau oddi wrth asiantaethau ac unigolion sy'n chwilio am lety symud-ymlaen yn y sector rhentu preifat. Derbyniwyd 203 o atgyfeiriadau am lety symud-ymlaen yn ystod 2008/09 a sefydlwyd 69 o unedau llety symud-ymlaen yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r asiantaethau y mae Agorfa/Cefni yn gweithio gyda nhw ar symud ymlaen yn cynnwys awdurdodau lleol, Adeiladau Cymeradwy y Gwasanaeth Prawf, hosteli pobl ddigartref, llochesau cymorth i fenywod, carchardai, ysbytai meddwl ac unedau gwelyau â chymorth, a sefydliadau tai â chymorth.

Mae'r problemau a ddaeth i'r amlwg wrth i Agorfa/Cefni weithio gydag amrediad mwy eang o asiantaethau i sicrhau llety symud-ymlaen yn y sector rhentu preifat yn cynnwys y canlynol:

- nid yw llawer o'r unigolion yn barod ar gyfer y sector rhentu preifat ac maent yn anghyfarwydd â gofynion a disgwyliadau landlordiaid yn y sector rhentu preifat

- nid atebion cyflym mo'r rhai gorau bob amser; un o swyddogaethau Agorfa yw cynyddu ymwybyddiaeth o'r angen am waith cyn-denantiaeth effeithiol cyn i bobl symud i mewn i'r sector rhentu preifat. Ym marn y sefydliad, ychydig iawn o dystiolaeth sydd ar hyn o bryd mewn projectau tai â chymorth o waith cyn-denantiaeth i baratoi ar gyfer symud ymlaen i'r sector rhentu preifat

- bydd dyfodiad a datblygiad pellach asiantaethau gosod eiddo cymdeithasol yn ehangu cyfleoedd symud-ymlaen, a bwrw fod asiantaethau a gweithwyr yn deall swyddogaeth a phroffil eu sector rhentu preifat lleol ac yn defnyddio asiantaethau gosod cymdeithasol fel ffordd gyson o roi mynediad i'r sector i'w cleientiaid

Mae Agorfa/Cefni bellach yn darparu hyfforddiant a gwasanaethau ymgynghori ar fynediad i'r sector rhentu preifat ledled Cymru a gogledd-orllewin Lloegr.

Gwybodaeth bellach
wil.williams@agorfa.org

Cymdeithas Tai Cadwyn – Calon Lettings

Drwy CalonLettings mae Cymdeithas Tai Cadwyn yn gweithredu fel asiantaeth osod a rheoli eiddo sy'n galluogi preswylwyr hosteli yng Nghaerdydd i gael mynediad i eiddo o ansawdd da yn y sector rhentu preifat. Mae landlordiaid yn fwy parod i gymryd rhan yn y cynllun oherwydd cyfranogiad Cadwyn, sefydliad â record brofedig mewn rheolaeth tai.

Cyd-gyllidir y cynllun gan Lywodraeth y Cynulliad a Chyngor Caerdydd ac mae'r rhenti o fewn terfynau Lwfans Tai Lleol. Hysbysebir eiddo gwag ar-lein, a gall gweithwyr cefnogi'r hosteli ddod o hyd i wybodaeth hefyd a chynghori eu cleientiaid. Mae'r cynllun yn gysylltiedig hefyd â Gwasanaeth Cefnogi Tenantiaid Cyngor Caerdydd.

Rhoddir y flaenoriaeth o dan y cynllun hwn i bobl y cytunodd y Cyngor fod arno ddyletswydd i ddarparu llety parhaol ar eu cyfer. Ond mae'r cynllun yn ystyried unrhyw un sy'n byw mewn hostel ac sydd â thystlythyr gan ei g/weithiwr cefnogi.

Caiff tenantiaid denantiaethau 6-mis byr-ddaliad sicr gyda Chymdeithas Tai Cadwyn. Rhaid i landlordiaid roi 6 mis o rybudd i Cadwyn cyn terfynu tenantiaethau. Bydd Cadwyn yn gwneud mân atgyweiriadau gwerth hyd at £200 y flwyddyn.

Rhaid i denantiaid fod â bond sydd ar gael drwy law Bwrdd Bondiau Caerdydd. Gall Cynllun Cefnogi Tenantiaid y Cyngor ddarparu cymorth symudol. Rhaid i unrhyw ddiffyg yn y rhent gael ei dalu gan y tenant. Mae safon cyflwr eiddo wedi cael ei datblygu ar gyfer landlordiaid sydd am gymryd rhan yn y cynllun.

Yn ystod 2008, rheolodd Cadwyn 120 o gartrefi ar ran landlordiaid sector preifat.

Gwybodaeth bellach
www.cadwyn.co.uk/article.asp?id=102

Camden – fflatiau i'w rhannu ar gyfer pobl ifanc

Mae Bwrdeistref Llundeinig Camden wedi datblygu cynllun rhannu fflatiau i bobl ifanc rhwng 18 a 24 oed fel rhan o'i lwybr symud-ymlaen, i helpu pobl ifanc sy'n barod i symud ymlaen o hosteli â chymorth Camden. Cychwynnodd y cynllun ym mis Ebrill 2007.

Caiff pob tenant ei denantiaeth/thenantiaeth ei hunan a bydd yn derbyn cefnogaeth gan ddarparydd cymorth symudol a gyllidir gan Cefnogi Pobl Camden.

Ysgogir landlordiaid i gyfranogi yn y cynllun drwy:

- un tâl na fydd yn rhaid ei ad-dalu o £2,000 fel cymhelliad i ymuno â'r cynllun
- gwarant o hyd at £700 y tenant yn erbyn niwed ar ddiwedd pob tenantiaeth
- y ffaith fod Camden yn ceisio llenwi eiddo wrth iddo fynd yn wag
- fod Camden yn chwilio am ffyrdd creadigol o ymateb i bryderon landlordiaid
- fod tenantiaid yn derbyn cefnogaeth

Bydd dau weithiwr symud-ymlaen y Cyngor yn cefnogi a datblygu'r cynllun.

Bu'r gefnogaeth yn bur ddwys oherwydd problemau dysgu rhannu a phroblemau gyda biliau. Fel ymateb, mae Camden yn archwilio'r syniad o roi mesuryddion ag allweddi unigol iddynt yn y fflatiau.

Gwybodaeth bellach

www.camden.gov.uk/ccm/navigation/housing/private-sector-housing/renting-your-property-through-camden-council/flat-share-scheme

hodt@camden.gov.uk

Cyreniaid Caeredin – cynllun rhannu fflatiau 'Flatmates'

Roedd y cynllun Flatmates wedi ei anelu'n wreiddiol at rai dan 25 oed yn ardal West Lothian. Fe'i sefydlwyd yn wreiddiol i oresgyn y cyfyngiadau Rhent Stafell Sengl a oedd yn cyfyngu ar allu rhai o dan 25 oed i sicrhau llety yn y sector rhentu preifat; mae bellach yn agored i rai dros 25.

Mae'r cynllun wedi ei anelu at rai heb ddim neu ddim ond ychydig iawn o anghenion cymorth, ac mae wedi ei seilio ar gynllun gwarantu ernes rhent.

Mae'r broses o gydweddu tenantiaid ac eiddo yn ystyried lle mae unigolyn am fyw yn ogystal â phellter oddi wrth deulu a rhwydweithiau cymorth.

Mae gan unigolion gytundebau tenantiaeth sicr cyfnod-byr, cytundebau cynilo ar gyfer ernes unigol, a chynlluniau cymorth unigol.

Pan fyddant wedi cael eu cydweddu â rhannwyr eraill posibl, bydd tenantiaid yn cymryd rhan mewn sesiwn 'paratoi i rannu' lle cânt eu hannog i drafod materion a allai achosi problemau a chytuno sut i'w datrys cyn i'r denantiaeth gychwyn.

Lle bo angen, bydd cefnogaeth a chyfryngu ar gael am flwyddyn. Mae'r gefnogaeth yn cynnwys helpu tenantaid i edrych ar ddewisiadau tai eraill a'u cyfeirio at wasanaethau eraill.

Defnyddir Budd-dâl Tai Dewisol i bontio'r bwlch rhwng ymadawiad un tenant a dyfodiad y nesaf fel na fydd y tenant sydd ar ôl yn wynebu cael ei droi allan am ôl-ddyledion rhent.

Cefnogwyd rhyw 30 o bobl i ddefnyddio'r cynllun Flatmates, Mae mwy nag 80% o'r rheini a gafodd lety wedi ei gynnal. Mae'r rheini sydd wedi symud ymlaen wedi gwneud hynny, gan mwyaf, mewn ffordd gynlluniedig a phositif.

Trechwyd gwrthwynebiad dechreuol landlordiaid drwy ddefnyddio fforwm landlordiaid fewnol y Cyreniaid sy'n cwrdd ddwywaith y flwyddyn, i roi sylw i'r project a chynyddu'r gronfa o landlordiaid sy'n fodlon gweithio gydag ef.

Ffactorau allweddol llwyddiant y cynllun yw:

- y cyfnod dwys o asesu, casglu tystlythyron a chydweddu tenantiaid cyn i'r denantiaeth gychwyn
- pecyn pwrpasol o gefnogaeth pan fydd y denantiaeth yn cychwyn

Gwybodaeth bellach

www.cyrenians.org.uk/Edinburghcyreniansourservices/rentedaccommodation/flatmates.html

Oldham

Mae Cyngor Metropolitan Oldham wedi gweithio i ddatblygu amrywiaeth eang o opsiynau ataliol a chefnogol ar gyfer pobl ifanc ddigartref, yn cynnwys rhai sydd am symud ymlaen. Ymateb yw hyn i'r ddemograffiaeth leol – mae 34% o'r boblogaeth o dan 25 mlwydd oed.

Mae'r Cyngor wedi datblygu nifer o ddewisiadau symud-ymlaen:

- gosod ar sail dewis ar gyfer pob oed, yn cynnwys rhai 16 a 17 oed
- cynllun bondiau i hwyluso mynediad i'r sector rhentu cymdeithasol
- defnyddio taliadau dewisol
- cefnogaeth sefydliadau gwirfoddol arbenigol drwy gyfrwng Cefnogi Pobl

Newidiwyd polisïau gosod eiddo lleol gan y cafwyd fod eu cyfyngiadau wedi arwain at annhegwch anuniongyrchol tuag at rai dan 25 oed. Mae pethau'n cael eu newid yn raddol er mwyn ysgogi mwy o gynigion ar gyfer pobl ifanc, yn enwedig lle bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn cytuno i fod yn warantydd.

Mae ffordd Oldham o fynd ati yn dangos sut mae angen amrywiaeth o ddewisiadau symud-ymlaen i ateb gwahanol anghenion pobl ifanc ddigartref mewn ardal.

Gwybodaeth bellach

www.oldham.gov.uk/living/housing.htm

Pwyntiau i grynhoi

- Mae yna amrywiaeth o ffyrdd o fynd i'r afael yn strategol â symud ymlaen. Rhaid i awdurdodau lleol, fodd bynnag, arwain y ffordd ac ystyried sut mae gwneud y cysylltiadau angenrheidiol, o fewn yr awdurdod ei hun a gyda phartner-sefydliadau perthnasol, er mwyn cynnwys dewisiadau llety symud-ymlaen yn y sectorau rhentu preifat a chymdeithasol ill dau
- Mae amrywiaeth yr enghreifftiau yn yr adran hon o'r nodyn cynghori yn arddangos nad yw un dull unffurf o fynd ati i ddatblygu strategaethau ac opsiynau symud-ymlaen yn debyg o fod yn addas. Rhaid i awdurdodau lleol ddatblygu dulliau sy'n adeiladu ar sail prosesau a chysylltiadau sy'n bodoli eisoes. Fodd bynnag, gellid disgwyl i ddull strategol o ymdrin â symud ymlaen gynnwys yr elfennau canlynol:
  - ystyried sut y mae gwasanaethau Cefnogi Pobl yn cael eu comisiynu er mwyn gwneud llwybrau drwy wasanaethau yn fwy amlwg
  - prosesau atgyfeirio ac asesu clir eu diffiniad ar gyfer rhai sy'n dymuno symud ymlaen
  - rhoi mesur o flaenoriaeth o fewn cynlluniau dyrannu tai cymdeithasol i bobl sydd ag angen symud ymlaen
  - cynnwys projectau sy'n hwyluso mynediad i'r sector rhentu preifat i bobl ddiymgeledd yn y dull symud-ymlaen, yn cynnwys rhoi'r dewis o rannu i bobl ifanc
  - elwa ar bob adnodd sydd ar gael drwy gysylltiadau â mentrau fel strategaethau cartrefi gwag
  - gweithio mewn partneriaeth gyda'r sector gwirfoddol

5 Nodyn cynghori ar symud ymlaen
Bwrw ymlaen

Efallai y dylai awdurdodau lleol sy'n ystyried datblygu strategaeth neu gynllun gweithredol symud-ymlaen, neu rai sy'n diwygio dull presennol o fynd ati, ystyried y canlynol:

Yr angen am lety symud-ymlaen

Man cychwyn da yw darganfod faint o alw sydd am lety symud-ymlaen, yn gyffredinol ac o brojectau unigol. Gallai ymarferiad mapio helpu i amcangyfrif faint o unedau o lety symud-ymlaen sy'n debyg o fod eu hangen, yn ogystal â phroblemau penodol gyda phrojectau neilltuol. Gallai'r dull a ddatblygwyd gan y project MOPP fod yn ffordd briodol o fynd ati[1]. Gellir bwydo'r wybodaeth hon i mewn i asesiadau anghenion tai hefyd a gallai ddylanwadu ar ffurf cynllun gosod eiddo (a allai neilltuo canran benodol o lety bob blwyddyn ar gyfer symud ymlaen)

Arweiniad strategol cryf

Mae datblygu dull effeithiol o ymdrin â symud ymlaen yn gofyn am waith partneriaeth gyda darparwyr llety â chymorth a llety dros-dro yn ogystal â darparwyr tai cymdeithasol, landlordiaid sector preifat ac amrywiaeth o asiantaethau statudol a gwirfoddol. Rhaid i'r awdurdod gynnig arweiniad strategol clir a chyfleu'r ffaith fod symud ymlaen yn flaenoriaeth i'r awdurdod a'i bartneriaid. Un ffordd bosibl o fynd ati fyddai cysylltu 'perfformiad' o ran cydweithredu â strategaeth neu broses symud-ymlaen ag elfennau eraill o'r swyddogaeth dai strategol.

Gwneud y cysylltiadau strategol

Dylid cysylltu datblygiad strategaeth a phrosesau symud-ymlaen â grwpiau strategol perthnasol fel Cefnogi Pobl a grwpiau llywio neu fforymau digartrefedd.

Y dull 'llwybrau' o fynd ati

Efallai y byddai'n fuddiol ystyried a oes gwerth mewn mabwysiadu dull llwybrau o fynd ati yn achos grwpiau o gleientiaid sydd â phroblemau neilltuol wrth geisio sicrhau llety symud-ymlaen. Os nad oes, yna a oes agweddau ar y ffordd y comisiynir gwasanaethau Cefnogi Pobl sy'n hybu neu'n rhwystro symud ymlaen o lefelau uwch i lefelau is o gefnogaeth ac, yn enwedig, a oes digon o gymorth symudol cyffredinol/cymorth tenantiaid ar gael i bobl sydd ag angen symud ymlaen o wasanaethau arbenigol?

Adnoddau

Pa adnoddau fydd eu hangen o fewn yr awdurdod er mwyn arwain a gweinyddu datblygiad mecanweithiau symud-ymlaen? Mae hyn yn neilltuol o bwysig yn y cyfnod dechreuol. Efallai y bydd angen swyddog penodol; dewis arall fyddai i'r tîm tai strategol arwain y gwaith. Dylid elwa ar adnoddau eraill o fewn yr awdurdod lleol, e.e. rhai sy'n gweithio'n benodol ar gysylltu â landlordiaid sector preifat, y swyddog cartrefi gwag, ac ati.

A oes angen adnoddau pwrpasol er mwyn gweithredu cynlluniau penodol neu ddatblygu mentrau sy'n bodoli eisoes? Roedd ar lawer o'r enghreifftiau a nodwyd yn y nodyn cynghori hwn angen cyllid/adnoddau penodol, yn enwedig yn y cyfnod sefydlu.

Dull corfforaethol/traws-adrannol o fynd ati

Bydd angen mecanweithiau ymarferol er mwyn sicrhau datblygu dull corfforaethol/traws-adrannol o fynd ati, a allai ddwyn ynghyd y cyfleoedd sy'n codi o weithio gyda'r sector preifat er mwyn gostwng dibyniaeth ar dai cymdeithasol ar gyfer symud ymlaen.

Manteisio ar yr sector rhentu preifat

Mae'n fuddiol ystyried sut y gellir manteisio ar y sector rhentu preifat ar gyfer symud ymlaen a sut y gellir sicrhau cefnogaeth gorfforaethol i hynny o fewn yr awdurdod lleol. Gall cynnwys y sector rhentu preifat alluogi awdurdod i gyflawni amcanion corfforaethol ehangach fel ymdrin ag eithrio cymdeithasol, adfywio, gwella cyflwr stoc, a sicrhau fod eiddo gwag yn cael ei ddefnyddio unwaith eto. Felly, gall effaith gwneud defnydd priodol o'r sector rhentu preifat fod yn llawer ehangach na dim ond bod yn ymgais i atal digartrefedd/dileu rhwystrau symud-ymlaen.

Blaenoriaeth o fewn cynlluniau dyrannu

Beth yw'r mecanweithiau ymarferol priodol gyda thai cymdeithasol er mwyn sicrhau blaenoriaeth i rai sydd am symud ymlaen?

- blaenoriaeth o fewn y cynllun dyrannu
- pennu cyfran benodol o unedau o fewn cynllun gosod eiddo ar gyfer symud ymlaen
- pennu cyfran benodol o enwebiadau o fewn cytundebau enwebu ar gyfer atgyfeiriadau symud-ymlaen, neu
- cytuno i neilltuo canran o'r eiddo i'w osod i atgyfeiriadau symud-ymlaen y tu allan i gytundebau enwebu

Dysgu gan eraill

Sut mae manteisio i'r eithaf ar yr hyn y gellir ei ddysgu gan eraill? Mae cryn brofiad yng Nghymru (a thu allan iddi) o ddatblygu strategaethau a threfniadaeth symud-ymlaen y gellir elwa arno gan rai sy'n dymuno datblygu eu ffordd eu hunain o fynd ati.

[1] *http://www.homeless.org.uk/policyandinfo/issues/rehousing/policyandinfo/issues/rehousing/MOPPdownload/view*

6 Nodyn cynghori ar symud ymlaen
Gwybodaeth bellach

Gwefannau

Y Comisiwn Archwilio – arfer positif ar sail arolygiadau	*www.audit-commission.gov.uk/housing/goodpractice/pages/default.aspx*
Cynllun Cenedlaethol Digartrefedd Ieuenctid Cymunedau a Llywodraeth Leol – adran symud-ymlaen	*www.communities.gov.uk/youthhomelessness/accommodation/moveon*
Homeless Link – protocolau llety symud-ymlaen	*www.homeless.org.uk/policyandinfo/issues/rehousing/mopp*
HouseMark	*www.housemark.co.uk*
It's your move	*www.itsyourmove.org.uk*
Y sector rhentu preifat	*www.privaterentedsector.org.uk*

Cyhoeddiadau

Gwasanaeth tanysgrifio'r Sefydliad Tai Siartredig (parhaus) **Practice Online**	*www.cih.org/practice/online*
Homeless Link (gwahanol ddyddiadau) **MOPP Matters rhifynnau 1-4**	*www.homeless.org.uk/policyandinfo/issues/rehousing/mopp*
Homeless Link (2007) **Unlocking solutions: developing move on plans**	*www.homeless.org.uk/policyandinfo/issues/rehousing/booklet*
Homeless Link (2007) **Unlocking solutions: report of the move on plans protocol (MOPP) pilot**	
Homeless Link (2006) **Move on plans protocol (MOPP) project barriers and solutions to move on: an overview**	
Sefydliad Joseph Rowntree (2008) **Young people's housing transitions**	*www.jrf.org.uk/publications/young-peoples-housing-transitions*
London Housing Foundation (2008) **Private rented homes for homeless single people: strategies in three London boroughs**	*www.privaterentedsector.org.uk/lhf_research.aspx*
London Housing Foundation (2008) **Improving access to the private rented sector for homeless single people in London – an overview of policies and programmes**	*www.privaterentedsector.org.uk/lhf_research.aspx*
London Housing Foundation/Crisis (2008) **Private access, public gain – the use of private rented sector access schemes to house single homeless people**	*www.privaterentedsector.org.uk/crisis_research.aspx*
London Housing Foundation/Housing Corporation/Starfish Consulting (dim dyddiad)) **Models of shared living: The potential to develop unsupported shared housing for people leaving temporary supported housing**	*www.yourmovenext.co.uk/info/map1_reports.html*
London Housing Foundation/Housing Corporation/Starfish Consulting (2003) **How providers of temporary supported housing can respond to the shortage of move-on accommodation**	*www.yourmovenext.co.uk/info/map1_reports.html*
London Housing Foundation/Housing Corporation/Starfish Consulting (2003) **Strategic moves: A framework for developing an area-based move-on strategy**	*www.yourmovenext.co.uk/info/map1_reports.html*
Mark Bannan, Nicholas Day Associates and Derek Finch Associates (2007) **Identifying and overcoming the barriers to providing and securing move-on accommodation in the south west**	*http://southwesthousingbody.org.uk/nqcontent.cfm?a_id=1782&tt=swra*
Move on Alternatives Project (2005) **Breaking down the barriers**	*www.yourmovenext.co.uk/info/map2.html*
Simone Dahlmann (2007) **Evaluation of the Move on plans protocol pilot – report to Homeless Link**	*www.homeless.org.uk/policyandinfo/issues/rehousing/fullreport*